



Yn y rhifyn hwn:

Gweithdai'r Hydref	2
Staff CALU newydd	2
Awydd ymuno a grwp trafod?	3
Tafenni Ffeithiau newydd	3
Digwyddiadau CALU	4

Gwinoedd o Gymru

Mae'n bosib y byddech yn synnu o glywed bod mwy na 20 o winllannoedd yng Nghymru. Mae'n wir mai bychan iawn yw maint rhai ohonynt, ond mae mwy na dwsin ohonynt wrthi'n brysur yn creu gwin ar gyfer ei werthu.

Un o'r rhai sy'n arwain y blaen o ran y diwydiant gwin yng Nghymru yw Gwinllan Ancre Hill ger Mynwy. Cafodd y gwinllannoedd hyn eu plannu 5 mlynedd yn ôl. Eleni, enillodd Ancre Hill wobwr arian yng Ngwobreuoedd Gwinoedd Decanter y Byd a'r wobwr efydd mewn Cystadleuaeth Gwirodydd a Gwinoedd Rhyngwladol yn gynharach eleni, gyda'u Gwin Gwyn Cymreig rhanbarthol.

Sut yn union mae Cymru'n gallu cynhyrchu gwin mor dda? Un o'r prif resymau yw'r gwelliannau yn yr amrywiaethau o wreiddgyff a deunyddiau scion (y winwydden ffrwytho). Erbyn hyn, ceir ystod o amrywiaeth o wreiddgyff a grawnwin sy'n gallu ymdopi gyda hinsawdd gweddol glae'r a thamp Cymu. Mewn gweithdy gwinllannoedd diweddar, dywedodd ymgynghorydd CALU, sef Simon Day o Vine and Wine Ltd bod rhai cyfyngiadau ffisegol a hinsoddol o ran tyfu grawnwin yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, po agosaf at lefel y môr y mae'r safle, po fwyaf yw'r gobeithion; 150 m uwch lefel y môr ydi'r terfyn uchaf ar gyfer cynhyrchu gyda'r

safle dyfu delfrydol wedi'i osod yn is na 50m uwch lefel y môr. Mae gofyn i'r safle fod yn un sy'n draenio'n dda, ac yn ddelfrydol yn meddu ar lethr gweddol ac elfen ddeheuol er mwyn gwneud y mwyaf o'r haul (pan fo'r haul yn tywynnu!). Mae'r gwyntoedd cryfion sy'n gyffredin yma yng Nghymru yn gallu bod yn broblemus, ond wrth blannu coed mewn modd dychmygus a chreu beltiau gwarchod, gellid goresgyn y broblem hon. Felly gyda'r safle iawn, yr amrywiaethau iawn, y cyngor iawn ac ychydig o gymorth gan y tywydd, mae pob cyfle y gall gwinllan yng Nghymru lwyddo. Ond mewn gwirionedd, does dim byd newydd mewn cynhyrchu gwin yng Nghymru. Credir bod y Rhufeiniaid wedi tyfu peth grawnwinoedd mewn rhai ardaloedd yng Nghymru gan gynhyrchu eu gwin eu hunain. Mae enwau llefydd yma yng Nghymru hefyd yn dynodi presenoldeb gwinllannoedd yn y gorffennol. Ac, yn ddi-ddorol iawn, mae'n debyg mai'r unig fan lle y cynhyrchwyd gwin yn fasnachol yn y DU ar ddiwedd y 19 Ganrif oedd Cymru. Felly, mae'r tyfwyr presenol yn ail-gydio mewn traddodiad hir o gynhyrchu gwin yng Nghymru. Mae hynny'n haeddu llwnc testun bach siawns!

Pwnciau CALU:

- Garddwriaeth
- Bio-egni
- Da Byw Amgen
- Cnydau Âr
- Cnydau Amgen

Fig 1: Cynhaliwyd gweithdy gwinllan gyntaf CALU yng Ngwinllan Ty Croes, Dwyran Ynys Môn, gyda chaniatâd caredig Harry Dean a'i deulu. Maer Ty Croes yn cynhyrchu gwinoedd gwyn a choch.



Gweithdai'r Hydref

Mae pawb ohonom yn gwybod cyn lleied o amser sydd gan gynhyrchwyr. Ond wedi dweud hynny, mae'n werth gwneud yr ymdrech i ddod draw i un o weithdai ymarferol CALU yn ystod yr hydref.

Rydym bellach yn ein seithfed flynedd o gyflwyno gweithdai ar draws Cymru ac fe wyddwn o'r ad-borth gan fynychwyr bod y gweithdai hyn yn werthfawr iawn iddynt.

Beth bynnag ydi eich busnes, bydd rhywbeth yn ein rhaglen yn siwr o apelio atoch. Er enghraifft, beth am, weithdy ar wneud seidr neu reoli gwinllan; neu docio gwinwydd mewn modd addas at gyfer y gaeaf,. Os mai cadw anifeiliaid sy'n mynd â'ch bryd chi, bydd gennym weithdai ar eni moch a chadw moch yn gyffredinol. Wrth i'r gaeaf agosáu, mae'n adeg paratoi ar gyfer ein gweithdai rheoli coetiroedd,gyda phwyslais ar reoli coed ar gyfer cyflewnwad cynladwy o danwydd. Byddwn hefyd yn edrych ar docio a graffito coedydd ffrwyth ac ar rôl coetiroedd gyda rheolaeth amgylcheddol.

Am ragor o wybodaeth am unrhyw u o'r gweithdai neu i archebu eich lle, edrychwch ar wefan CALU neu cysylltwch â calu@bangor.ac.uk neu ffoniwch 01248 680450.

Oeddech chi'n gwybod.....

Bod cennin sifi yn tyfu o'u bôn yn hytrach nag o'u blaen. *Intercalary* yw'r enw am y math o dyfiant hwn.

Ac mae hyn yn gyffredin mewn gwair. Dyna pam y mae cennin sifi sydd wedi'u malu'n fân wastad yn cadw eu hochr sydd wedi ei falu'n fân, ond yn gallu parhau i dyfu.

Staff CALU newydd

Ar gyhwyn Gorffennaf, a ninnau ar drothwy cyfres o sioeau a digwyddiadau yn ystod tymor yr haf, mae dau aelod newydd o staff wedi ymuno â thîm CALU sef Lesley Thomas and Laura Pritchard.

Mae gan Lesley radd mewn Biolog Amgylcheddol a gradd Meistr mewn Rheoli Cefn gwlad, y naill a'r llall o Brifysgol Bangor.

Gradd mewn Twristiaeth a Rheolaeth o Brifysgol Manceinion sydd gan Laura. Dros yr haf, mae Laura wedi bod yn canolbwyntio ar ein deunydd i'w arddangos mewn sioeau a digwyddiadau. Bu hi hefyd yn helpu gyda'r gwaith o reoli'r treialon perlaysiau a salad yng Nghanolfan Ymchwil Henfaes. Wrth symud tua'r Hydref, bydd Laura yn trefnu cyfarfodydd ar gyfer creu grwpiau trafod a gweithdai ar gyfer cynhyrchwyr trwy Gymru.

Mae Lesley wedi bod yn gweithio gyda grwpiau tyfwyr trwy'r haf ac erbyn hyn yn llunio rhaglen ar gyfer grwpiau trafod a gweithdai ar gyfer yr hydref a'r gaeaf. Mae Lesley hefyd wedi cofrestru ar y cwrs cadw gwenyn yn Henfaes ac fe fydd hi'n helpu gyda'r gwaith o reoli'r wenyntfa yma.



Laura



Lesley

Oeddech chi'n gwybod...

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gobeithio creu 100,000 ha o goetiroedd newydd dros yr 20 mlynedd nesaf??

Awydd ymuno â grwp trafod?

Bydd grwpiau trafod CALU yn magu stêm wrth i dymor yr Hydref agosáu. Mae grwpiau trafod yn ffordd wych i gyfarfod pobl sydd â diddordebau tebyg i chi eich hun.

Mae ein grwpiau trafod yn cynnwys ystod eang o bynciau a hynny dros Gymru i gyd- o feithrinfeydd coed yn Eryri i gynhyrchwyr gafr ym Mhenfro i gynhyrchwyr dofednod yng Nghonwy i gynhyrchwyr moch ym Mhowys. Mae rhai o'r grwpiau hyn wedi hen sefydlu eu hunain ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd, yn fisol neu'n chwarterol. Mae eraill yn fwy anffurfiol gan gyfarfod pan fo pwnc sydd o ddi-ddordeb i'r grŵp yn codi'i ben..Mae'r holl grwpiau hyn yn croesawu aelodau newydd.

Os oes pwnc yr hoffech chi sefydlu grŵp i'w drafod a does dim grŵp addas yn eich ardal, rydan ni wastad yn barod i drafod y posibiladau.

Dyma rai esiamplau o'r mathau o bynciau y bydd y grwpiau yn eu trafod yr hydref hwn:

- Iechyd a Lles Moch
- Strwythur a ffrwythlondeb tir
- Geifr wrth reoli tir
- Cynhyrchu wyau "free range"
- Rhywogaethau coed : dewis ar gyfer newid posib yn yr hinsawdd
- Cadw Gwenyn
- Cynhyrchu perlaysiau
- Gwinllannoedd: cynhyrchu gwin mewn modd cynaliadwy
- Dofednod: nodweddion brîd- pa frîd fyddai orau ar gyfer eich busnes

Cynhelir cyfarfodydd yn gynnar gyda'r nos fel arfer, weithiau yn y prynhawn. Mae'r awyrgylch yn gyfeillgar ac anffurfiol- mae croeso i bawb ddod draw.

Oeddech chi'n gwybod...

Mae ariannu brys dros dymor byr ar gael ar gyfer perchnogion coetiroedd newydd gyda stand Larch Siapaneaidd ifanc (hyd at 25 ml) sy'n cael eu heffeithio gan phytophthora ramorum. Mae'r arian ar gyfer y fenter yn brin iawn- am ragor o wybodaeth ffoniwch 0300 068 0300 (Comisiwn Coedwigaeth Cymru).

Taflenni Ffeithiau Newydd gan CALU

Mae arbenigwyr technegol CALU wedi bod wrthi'n brysur dros yr haf yn cynhyrchu ystod o daflenni ffeithiau newydd.

Ysgrifennwyd y cyntaf- taflen ffeithiau yn rhoi cyngor ac arweiniad i bobl sydd yn newydd i berchnogi tir- fel ymateb i'r nifer helaeth iawn o ymholiadau a gawn ni ar y pwnc hwn. Os ydych chi wedi prynu tir, neu wedi etifeddu tir yn ddiweddar, neu os ydych chi'n ystyried prynu tir, mae'r daflen ffeithiau hon sydd, wedi ei hysgrifennu gan ADDAS yn fan cychwyn gwych. Mae'n edrych ar ystyriaethau cyfreithiol, ynghyd â materion ymarferol y dylech ymchwilio iddynt..

Hefyd, mae gennym daflen ffeithiau newydd i bobl sydd yn dechrau cadw moch am y tro

cyntaf. Eto, mae'r daflen hon wedi ei hysgrifennu fel ymateb i nifer gynyddol o ymholiadau gan gadwyr moch newydd a rhai sy'n meddwl mentro i'r maes am y tro cyntaf. Mae'r daflen yn trafod yr holl ffactorau sylfaenol sydd angen eu hystyried wrth gadw moch ac yn awgrymu llefydd eraill ar gyfer derbyn mwy o wybodaeth

Gyda chynhyrchu wyau "free range" wedi cynyddu'n arw yng Nghymru yn ddiweddar, roeddem yn gwybod bod angen taflen ffeithiau elfennol ar y pwnc hwn. Eto, roeddem yn gallu troi art ein cyfeilion yn ADDAS, sydd â phrofiad helaeth yn y sector hwn er mwyn darparu taflen ffeithiau i gyflwyno'r pwnc i ddarllenwyr, ac ystyried yr holl ystyriaethau

ymarferol a chyfreithiol allweddol y mae'n rhaid i ddarpar gynhyrchydd wyau feddwl amdanynt,

Ar ben y taflenni ffeithiau penodol, rydym hefyd wedi bod wrthi'n brysur yn ysgrifennu adroddiadau a thafenni ffeithiau o'r gweithdai a gynhaliwyd genym dros y misoedd diwethaf. Mae ychwanegiadau newydd yn yr adran hon yn cynnwys; atal cloffni a thrin traed geifr; cynaeafu dŵr mewn garddwriaeth, taflenni amrywiol asesu pridd; a thafenni ffeithiau am y rhannau cynhyrchu perlaysiau a'r perllannau yma yng Nghanolfan Ymchwil Henfaes, sef cartref CALU. Mae modd lawrlwytho'r holl daflenni ffeithiau hyn yn rhad ac am ddim o wefan CALU.

CANOLFAN DEFNYDD TIR AMGEN

Canolfan Ymchwil Henfaes
Prifysgol Bangor
Abergwyngregyn
LLANFAIRFECHAN
LL33 0LB
Ffôn: 01248 680 450
Ffacs: 01248 681730
E-bost: calu@bangor.ac.uk

www.calu.bangor.ac.uk

Cefnogi Defnyddio Tir yn Gynaliadwy



Digwyddiadau i Ddod

Cysylltwch â ni i gael gwybodaeth bellach am unrhyw rai o ddigwyddiadau CALU. Mae mwy o ddigwyddiadau ar ein gwefan —www.calu.bangor.ac.uk

Cofiwch sicrhau bob amser bod digwyddiad yn cael ei gynnal cyn i chi deithio.

Awst 18fed-Perlysiâu Henfaes: diwrnod agored yn edrych ar dyfu perlysiâu, perlysiâu pot, a saladau-meicro mewn cae

Awst 24ain-Gweithdai Blaguro, Meithrinfeydd Tal Goed

Awst 25ain— Sioe Meirionnydd, Harlech

Awst 26ain — Sioe Sir Fynwy, Mynwy

Hydref 12fed -Gweithdy Gwneud Seidr, Llanrhystud

Hydref 13eg - Gweithdy Rheoli Chwyn, Prifysgol Glyndŵr, Campws Llaneurgain

Hydref 19eg - Dosbarth meistr mewn Garddwriaeth, Llanerchaeron .Bydd ystod o arbenigwyr a chyflenwyr eitemau o botiau planhigion i dwneli poly, hadau a phrofi pridd ar gael..

Hydref 21ain — Cynhadledd Flynyddol Canolfan Tyfu Organig Cymru, Llanellwedd

Dyddiadau i'w cadarnhau

Gwneud Seidr & Rheoli Perllan-gogledd Cymru

Tocio coed ffrwythau yn y Gaeaf gyda Ian Sturrock — gogledd Cymru

Tocio cynnar ar winwydd grawnwin gyda Simon Day—gogledd Cymru

Ffeithiau am CALU

Mae CALU'n cyflwyno Rhaglen Datblygu Rheolaeth Tir Cyswllt Ffermio. Mae'r rhaglen yn rhoi gwybodaeth i unrhyw fusnes yng Nghymru sydd â diddordeb yn y canlynol:

- Garddwriaeth
- Bio-egni
- Da Byw Amgen
- Cnydau Âr
- Cnydau nad ydynt yn rhai bwyd

Mae gan CALU dri aelod staff parhaol a rhwydwaith o arbenigwyr cysylltiedig sy'n ymdrin â'r holl feysydd yng nghylch gorchwyl CALU.

GWEITHGAREDDAU CALU:

Dyddiau agored
Arddangosiadau
Tafenni technegol
Dyddiau hyfforddi
Erthyglau i'r wasg
Tafenni gwybodaeth am gnydau
Adroddiadau project
Sgyrsia
Grwpiau cynhyrchwyr
Sioeau amaethyddol
llyfyrnau gwybodaeth

PARTNERIAID CALU :

Prifysgol Bangor
Coleg Garddwriaeth Cymru
ADAS Cymru
Coed Cymru
Coleg Llysfasi

